# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Cyrff Cyhoeddus) (Diwygio) 2024

**Adran:**

Yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy

**Gweinidog Cyfrifol:**

Lesley Griffiths AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Dyddiad cychwyn:**

30 Mehefin 2024

**Cyfeiriad e-bost cyswllt:**

Dyfodol.Cynaliadwy@llyw.cymru

## Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

1. Mae gennym gyfraith yng Nghymru sy'n ein helpu ni i gyd i weithio gyda'n gilydd i wella ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a'n diwylliant. Er mwyn pobl, ac er mwyn ein planed. Yn awr, ac ar gyfer ein dyfodol. Enw'r ddeddf hon yw Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ("y Ddeddf"). Mae'n anelu at sicrhau y bydd gan genedlaethau'r dyfodol yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni nawr, o leiaf. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn:

    - meddwl yn yr hirdymor
    - helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
    - mabwysiadu dull integredig
    - cymryd agwedd gydweithredol, ac yn
    - ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

**Pam rydym yn adolygu'r rhestr o gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?**

2. Ers i'r Ddeddf ddod yn gyfraith a dod i rym yn 2015 ac i'r ddyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus penodedig ddod i rym yn 2016, mae cyd-destun y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi newid ac mae'n briodol ein bod ni'n adolygu a oes cyfiawnhad dros ddynodi cyrff cyhoeddus ychwanegol yn destun y ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant yn adran 3 o Ran 2 o'r Ddeddf. Ar hyn o bryd mae 48 corff wedi'u rhestru yn adran 6(1) o'r Ddeddf.

3. Mae'r penderfyniad i adolygu'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant wedi cael ei lywio a'i hyrwyddo gan:

    - Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru Felly, beth sy'n wahanol? Canfyddiadau Archwiliadau Egwyddor Datblygu Cynaliadwy yr Archwilydd Cyffredinol (Mai 2020), a oedd yn nodi bod nifer o gyrff cyhoeddus newydd wedi cael eu sefydlu ers 2015 ond nad ydynt wedi cael eu dynodi o dan y Ddeddf ac y gallai bod cyfiawnhad dros ddynodi cyrff eraill sydd eisoes yn bodoli (fel Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru) hefyd.
    - Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y pumed Senedd) Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol – y stori hyd yma (Mawrth 2021). Mae argymhelliad 7 yr adroddiad yn datgan "Rhaid i Lywodraeth Cymru gynnal adolygiad o'r cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf."

4. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion yr adroddiadau hyn ac ar ddiwedd 2021 ymrwymodd i gynnal adolygiad o gyrff cyhoeddus a allai warantu dynodiad i'r Ddeddf.

5. Mewn ymateb i argymhelliad ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn 2021, adolygodd Llywodraeth Cymru pa gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant yn adran 3 o Ran 2 o'r Ddeddf.

6. Yn dilyn yr adolygiad hwn a'r ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 14 Gorffennaf a 20 Hydref 2022, cynigiodd Llywodraeth Cymru ychwanegu wyth corff cyhoeddus at adran 6(1) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er mwyn iddynt fod yn

ddarostyngedig i’r ddyletswydd llesiant a’i bod yn ofynnol iddynt gyflawni datblygu cynaliadwy. Y cyrff cyhoeddus ychwanegol a gynigir yw:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru (enw cofrestredig: Transport for Wales)
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (enw cofrestredig: Centre for Digital Public Services Ltd)
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

7. Ystyriodd Gweinidogion Cymru yr ymatebion i'r ymgynghoriad gan gadarnhau ym mis Chwefror 2024 (Datganiad Ysgrifenedig) eu bod yn bwriadu cynnwys y cyrff cyhoeddus ychwanegol a restrir ym mharagraff 7 i adran 6(1) o'r Ddeddf, gan ddefnyddio'r pwerau yn adran 52 o'r Ddeddf. Byddai hyn yn cael ei sicrhau drwy is-ddeddfwriaeth.

8. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod y cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd datblygu cynaliadwy a llesiant o 30 Mehefin 2024 ymlaen.

9. Trwy ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol at y Ddeddf, bydd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") fwy o gyrff cyhoeddus i'w monitro, eu hadolygu a'u cefnogi, a bydd yn rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru ("ACC") gynnal rhagor o archwiliadau o egwyddorion datblygu cynaliadwy.

10. Bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol, yn rhinwedd cael eu hychwanegu at adran 6(1) yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol a'r ddyletswydd caffael sy'n gyfrifol yn gymdeithasol fel y nodir yn Neddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 ("Deddf SPPP").

11. Nid yw’r cynigion yn newid amcanion polisi na chanlyniadau arfaethedig Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol. Drwy ymestyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i gyrff cyhoeddus ychwanegol, mae’r cynigion yn ymestyn cyrhaeddiad Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i wahanol wasanaethau cyhoeddus y gallai pobl eu cael, a swyddogaethau ychwanegol mae’r cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn yn eu cyflawni sy’n effeithio ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

12. Roedd adroddiad Tueddiadau’r Dyfodol Cymru 2021 yn tynnu sylw at dueddiadau allweddol sy’n effeithio ar lesiant Cymru, gan gynnwys y newid yn y galw am wasanaethau cyhoeddus. Bydd ymestyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i gynnwys cyrff cyhoeddus ychwanegol yn sicrhau bod y cyrff cyhoeddus hyn yn gweithio i’r un safonau uchel ar gyfer llywodraethu a gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi gwell cydweithio rhwng cyrff cyhoeddus mewn ymateb i’r heriau hyn. Mae’r cynigion yn integreiddio’n agos â’r darpariaethau a’r dyletswyddau newydd yn y Ddeddf SPPP. Rydym wedi gweithio ar y cyd â’r cyrff cyhoeddus ychwanegol arfaethedig i ddeall effeithiau ymestyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a thrwy ein sesiynau cyfnewid gwybodaeth rydym wedi gallu rhannu arferion gorau.

13. Bydd ymestyn Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i’r cyrff cyhoeddus ychwanegol hyn yn cryfhau ac yn ehangu’r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn sefydlu safonau uchel o ran llywodraethu a gwneud penderfyniadau ar draws y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae’r cysondeb hwn o ran safonau yn helpu i gryfhau amcanion llesiant Llywodraeth Cymru, sy’n cael eu hamlinellu yn y Rhaglen Lywodraethu, ac yn cefnogi’r gwaith o gyflawni polisïau trawsnewidiol yng Nghymru. Bydd cipio mwy o’r Un Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru o dan fframwaith y Ddeddf yn sicrhau gwell cysondeb a chwarae teg.
14. Bydd gan rai cyrff cyhoeddus gapasiti a gallu gwahanol i gyfrannu at gyflawni rhai neu'r cyfan o'r nodau llesiant yn dibynnu ar eu dyletswyddau, eu pwerau a'u hadnoddau. Fodd bynnag, mae’r ddyletswydd llesiant yn ymwneud â’r cyfraniad y gall corff cyhoeddus ei wneud. Mae’r Ddeddf yn rhoi hyblygrwydd i gyrff cyhoeddus wrth bennu amcanion llesiant i wneud hynny mewn ffordd sy’n gweddu i'w rôl a’u swyddogaethau.
15. Mae’n ofynnol i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni’r amcanion llesiant a bennwyd ganddynt. Bydd cyfyngiad bob amser ar faint o gyllid, pobl, amser ac asedau sydd ar gael i gymryd y camau angenrheidiol, ond mae angen adolygu’r ystyriaeth o’r ffactorau hyn drwy gymhwyso’r pum ffordd o weithio o fewn yr egwyddor datblygu cynaliadwy.
16. Mae'r ddyletswydd llesiant yn sicrhau bod cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystyried effeithiau hirdymor yr hyn y maent yn ei wneud. Yn unol â'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, bwriedir i'r camau a gymerwyd o dan y Ddeddf fod o fudd i genedlaethau presennol (pob oedran) ond wrth wneud hynny osgoi effaith andwyol ar genedlaethau'r dyfodol. Mae natur hirdymor Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn golygu y gwelir effeithiau dros gyfnod hirach ac felly bydd yn effeithio ar bobl a'r amgylchedd yn y tymor hir.
17. Mae’r costau ar gyfer y rheoliadau wedi eu nodi mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol a’r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig.

**Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023**

*Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol*

18. Fel corff cyhoeddus sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd llesiant, o 30 Mehefin 2024 ymlaen (yn amodol ar ewyllys y Senedd), bydd y cyrff cyhoeddus ychwanegol hefyd yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd partneriaeth gymdeithasol yn y Ddeddf SPPP. Mae hyn yn golygu y bydd angen i’r cyrff cyhoeddus weithio gyda’u hundebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr staff eraill i osod a chyflawni amcanion llesiant. Bydd angen i’r cyrff cyhoeddus hefyd gyhoeddi adroddiad partneriaeth gymdeithasol blynyddol ar eu cydymffurfiaeth â’r ddyletswydd a’i gyflwyno i’r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Mae cynnwys cyflogwyr a gweithwyr mewn trafodaethau allweddol ynghylch gwelliannau i lesiant yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad a'r arbenigedd unigryw a gynigir gan y rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â darparu gwasanaethau cyhoeddus wrth fynd i'r afael â heriau a rennir a chwilio am atebion arloesol.

19. Gan hynny, bydd ymestyn y ddyletswydd llesiant hefyd yn arwain at roi mwy o sylw i ddarpariaethau’r Ddeddf SPPP. Bydd hyn yn gwella’r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus ac yn ategu’r gwaith o wreiddio gwaith teg mewn amcanion llesiant.

*Gwaith Teg*

20. O fis Ebrill 2024 ymlaen, bydd angen i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cymru sicrhau bod eu hamcanion llesiant yn cyfrannu i'r eithaf at gyflawni gwaith teg. Mae Deddf SPPP yn diwygio geiriad nod llesiant *Cymru Ffyniannus* drwy newid ‘gwaith addas’ i ‘waith teg’. ‘Gwaith teg’ yw presenoldeb amodau amlwg yn y gwaith sy’n golygu bod gweithwyr yn cael eu gwobrwyo’n deg, yn cael eu clywed a’u cynrychioli, yn ddiogel ac yn gallu symud ymlaen mewn amgylchedd gwaith iach a chynhwysol lle caiff hawliau eu parchu.

21. Mae gwaith teg yn galluogi amgylchedd gwaith sy’n rhoi sylw i lesiant gweithwyr. Bydd y camau a gymerir gan sefydliad wrth fynd ar drywydd gwaith teg yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y sefydliad hwnnw. Mae'n bosibl na fydd rhai camau gweithredu’n briodol nac yn ymarferol i bob sefydliad, felly mater i bob sefydliad yw penderfynu pa gamau gweithredu sy’n briodol/ymarferol. Cewch ragor o wybodaeth am waith teg ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.

**Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?**

22. Byddai'r cynnig yn gwneud y cyrff cyhoeddus ychwanegol yn ddarostyngedig i ddyletswydd sydd eisoes ar waith ar gyfer 48 o gyrff cyhoeddus ac sydd wedi bod ar waith ers 2016. Ni fydd bwriad polisi sylfaenol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn newid o ganlyniad i ychwanegu cyrff cyhoeddus.

23. Lansiwyd ymgynghoriad cyhoeddus 14 wythnos ar y cynnig hwn ar 14 Gorffennaf 2022 a daeth i ben ar 20 Hydref 2022. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gofyniad cyfreithiol i ymgynghori â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, y cyrff cyhoeddus y bwriedir eu hychwanegu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a phersonau eraill yr ystyrir eu bod yn briodol. Ymgynghorwyd yn uniongyrchol drwy lythyr â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a chyrff cyhoeddus yr oedd bwriad i’w hychwanegu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol, gan eu gwahodd i ymateb i’r ymgynghoriad. Roedd yr ymgynghoriad yn agored i bob aelod o gymdeithas ac roedd grwpiau/sefydliadau a oedd yn cynrychioli buddiannau penodol yn gallu dweud eu dweud am y cynigion a llywio’r camau gweithredu terfynol. Cafodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o 34 ymateb i’r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys:

- 2 Awdurdod Lleol
- 3 Chyngor Tref a Chymuned
- 2 Fwrdd Iechyd
- 6 o Asiantaethau’r Llywodraeth / Cyrff Sector Cyhoeddus Eraill (cyrff cyhoeddus ychwanegol)
- 5 o Asiantaethau’r Llywodraeth / Cyrff eraill yn y Sector Cyhoeddus
- 2 Sefydliad Trydydd Sector / Elusen
- 8 Corff Cynrychioladol / Corff Proffesiynol / Cymdeithas / Undeb
- 1 Cwmni Preifat
- 4 o Ymatebwyr Unigol

- 1 Ymateb Dienw

24. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi mynegi cefnogaeth dros ymestyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol oherwydd y cyfeiriad strategol cyffredin y mae'r ddyletswydd yn ei ddarparu drwy ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau fabwysiadu dull system gyfan o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

**Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?**

25. Nid yw'r cynnig yn newid cwmpas a natur y ddyletswydd llesiant ei hun nac yn newid y nodau llesiant y mae'n rhaid i gyrff gyfrannu tuag atynt, a'r egwyddor datblygu cynaliadwy y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu'n unol â hi. Gan hynny, dim ond o ganlyniad i'r ffaith bod rhagor o gyrff cyhoeddus yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant mae'r effeithiau'n codi. Cafodd yr effeithiau ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol eu hasesu fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, ac mae'r rhain i'w gweld yn y Memorandwm Esboniadol 2015.

26. Gan hynny, mae'r brif effaith ar y cyrff cyhoeddus a fydd yn dod yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf SPPP. Bydd hyn yn arwain at newidiadau i'r ffordd mae'r sefydliadau hynny'n gwneud penderfyniadau, yn cynnwys pobl, yn cydweithio ag eraill, ac yn gosod, cyhoeddi ac adrodd ar eu hamcanion. Drwy'r ymgynghoriad, dywedodd rhai ymatebwyr fod defnyddio'r *pum ffordd o weithio*, fel yr amlinellwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi bod yn ddefnyddiol wrth gynllunio gweithgareddau a chynnwys pobl yn effeithiol yn y gwaith o ddatblygu polisïau. Dywedodd rhai cyrff cyhoeddus presennol fod bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant wedi helpu i ganolbwyntio mwy ar fod yn fwy cynaliadwy a meddwl mwy am y tymor hir, yn ogystal â sicrhau dull gweithredu cyson ar draws rhannau mawr o'r sector cyhoeddus. Gallai ymestyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyrff cyhoeddus ychwanegol gynyddu'r effeithiau a nodwyd yn wreiddiol wrth i gyrff cyhoeddus ychwanegol newid sut maent yn gweithio a beth maent yn ei wneud i gyflawni eu dyletswyddau newydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf SPPP. Mae'r asesiad effaith hwn yn adeiladu ar yr asesiad a gwblhawyd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sydd i'w weld ar dudalennau gwe yr Archifau Cenedlaethol.

27. Mae'r asesiad effaith hwn yn cydnabod myfyrdodau o Adroddiad Llesiant Cymru, adroddiadau gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Adroddiad ACC ar archwiliadau. Canfu adroddiad ACC yn benodol rai cyfleoedd i gyrff cyhoeddus wrth gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac enghreifftiau da o gyrff cyhoeddus yn cefnogi plant a phobl ifanc ond canfu fod angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy i gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

28. Daeth yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar y cynnig hwn i'r casgliad nad yw ymestyn y ddyletswydd llesiant yn cael effaith negyddol ar hawliau plant. Gall bod yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant helpu cyrff cyhoeddus i fabwysiadu Dull Hawliau Plant yn eu gwaith, eu helpu i ymdrin â lles plant mewn modd integredig, a manteisio ar y rôl bwysig y mae pob corff cyhoeddus yn ei chwarae ym mywydau plant.

29. O ran yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, nid yw'r penderfyniad sy'n cael ei asesu yn newid y dyletswyddau cydraddoldeb ar gyrff cyhoeddus, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus na'r nodau llesiant na'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gan hynny, mae'r asesiad effaith gwreiddiol a ddatblygwyd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal i fod yn ddilys.

30. Yn 2020, cyhoeddodd ACC ei adroddiad yn manylu ar y canfyddiadau o'i archwiliadau datblygu cynaliadwy. Canfu'r adroddiad fod llawer o enghreifftiau ble roedd angen i gyrff cyhoeddus wneud mwy i gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Nododd gyfleoedd i gyrff cyhoeddus gysylltu cyfranogiad â'u dyletswyddau cydraddoldeb, sy'n cynnwys ymgysylltu a chynnal eu hasesiadau effaith cydraddoldeb eu hunain. Awgrymodd hefyd y dylai cyrff cyhoeddus adolygu canlyniadau cyfranogiad a allai gynnwys ceisio adborth ar brofiad rhanddeiliaid sy'n rhan o'r broses. Daeth Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei ddiweddaru i'r casgliad y bydd gwneud cyrff cyhoeddus ychwanegol sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at yr *holl* nodau llesiant, gan gynnwys *Cymru sy'n Fwy Cyfartal*. Bydd hyn yn arwain at effaith gadarnhaol ar grwpiau gwarchodedig, fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

31. Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Brawfesur Polisïau o safbwynt Anghenion Cefn Gwlad yn ystyried effaith ymestyn y ddyletswydd llesiant ar unigolion sy'n byw mewn cymunedau gwledig. Yn gyffredinol, disgwylir i'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar bobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig gan y bydd angen i gyrff cyhoeddus, yn ôl y gyfraith, ystyried anghenion y cymunedau hyn wrth ddatblygu eu hamcanion llesiant.

32. Mae'r holl gyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y cyrff cyhoeddus ychwanegol, yn darparu gwasanaethau i bobl mewn ardaloedd gwledig ac felly mae potensial i'r cyrff cyhoeddus hynny gyflawni datblygiad cynaliadwy a gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wneud penderfyniadau sy'n sicrhau manteision cadarnhaol i fywydau pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig.

33. Yn 2020, cyhoeddodd ACC ei adroddiad yn manylu ar ganfyddiadau o'i archwiliadau datblygu cynaliadwy. Yn yr adroddiad hwn, tynnodd sylw at astudiaeth achos o sut mae Cyngor Sir Powys a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi defnyddio prosesau cydweithio, i gyflawni Rhaglen Lles Gogledd Powys. Defnyddiodd y rhaglen ddull cadarn ac arloesol o gasglu a delweddu data iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd cwmpas y rhaglen hon yn cynnwys gweithio gyda chymunedau lleol i gydlunio, profi a chyflwyno model integredig newydd ar gyfer poblogaeth wledig yng Ngogledd Powys, gan ddod â phartneriaid ynghyd ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector. Cymerodd y rhaglen ymagwedd arloesol tuag at ymgysylltu â rhanddeiliaid a dinasyddion wrth ddatblygu'r rhaglen.

34. Daeth yr Asesiad Effaith ar y Gymraeg i'r casgliad y bydd ymestyn y ddyletswydd llesiant yn cael effaith gadarnhaol ar ddefnydd o'r Gymraeg, o ystyried statws penodol y Gymraeg yn y nod llesiant ar gyfer *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*, a'r dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cysylltiedig ar yr iaith Gymraeg. Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol. Roedd yr ymgynghoriad

ar gyfer y cynnig hwn yn ceisio barn ar effeithiau ymestyn y ddyletswydd ar y defnydd o'r Gymraeg a'r consenswS oedd y bydd yr effeithiau yn gadarnhaol.

35. Mae ymestyn nifer y cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant yn gyson â hyrwyddo *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu* ar draws ystod ehangach o sefydliadau. Bydd yn cefnogi hyrwyddo datblygiad sgiliau pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru, a fydd yn cael gwell mynediad at gyfleoedd i ddysgu am ein diwylliant, ein treftadaeth a'n hiaith. Mewn perthynas â phob poblogaeth, bydd hyn yn gwella cyflogadwyedd ar gyfer unrhyw farchnad waith yng Nghymru ac yn sicrhau bod diwylliant, treftadaeth ac iaith yn ganolog i swyddi a cheisio rolau yn y dyfodol.

36. Canfu'r Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth y bydd effaith gadarnhaol net. Drwy ddod â chyrff cyhoeddus ychwanegol o dan y ddyletswydd llesiant, eu cyfrifoldeb nhw fydd gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at nod llesiant *Cymru Gydnerth*, sy'n cynnwys yn ei ddisgrifiad cynnal a gwella 'amgylchedd naturiol bioamrywiol'. Felly, bydd angen i gyrff cyhoeddus ystyried sut i wella bioamrywiaeth, ac ystyried cysylltu'r ymdrechion hyn ag amcanion llesiant eraill.

37. Disgwylir y bydd ymestyn y ddyletswydd llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol a enwir yn y cynnig hwn yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd pobl yng Nghymru. O dan y ddyletswydd newydd, bydd angen i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol ystyried sut gallant wneud y mwyaf o'u cyfraniad at nod llesiant *Cymru Iachach*. Gan nad yw polisi gwreiddiol Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi newid, nid ydym yn disgwyl gweld effaith wahaniaethol sylweddol ar iechyd grwpiau penodol. Ni ddisgwylir effeithiau negyddol o ganlyniad i'r cynnig.

38. Canfu'r Asesiad o'r Effaith ar y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol, drwy ymestyn y ddyletswydd llesiant a chynyddu'r cyfraniadau i'r saith nod llesiant, y bydd hyn yn ategu'r nodau, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac yn arwain at effaith gadarnhaol ar leihau anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol.

39. Daeth yr Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder i'r casgliad na fyddai'r cynigion yn cael llawer o effaith/unrhyw effaith o gwbl ar y system gyfiawnder.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

40. Yn gynnar yn y broses o ddatblygu'r cynnig hwn, nodwyd mai'r prif effaith fyddai ar y cyrff cyhoeddus ychwanegol a sut maent yn gwneud penderfyniadau, yn ymgysylltu â dinasyddion, yn cydweithio ag eraill, ac yn gosod, yn cyhoeddi ac yn adrodd ar eu hamcanion. Er mwyn lleihau'r effaith hon, roedd pob corff cyhoeddus yn ymgysylltu'n gynnar yn y broses i'w gwneud yn ymwybodol o'r cynigion i'w hychwanegu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Rydym hefyd yn parhau i gynnal sesiynau cyfnewid gwybodaeth er mwyn i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol allu dysgu oddi wrth gyrff cyhoeddus presennol a'i gilydd. Mae'r sesiynau hyn wedi cynnwys swyddogion o swyddfa Comisiynydd

Cenedlaethau’r Dyfodol, Archwilio Cymru, cyrff cyhoeddus presennol, a swyddogion Llywodraeth Cymru.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a’i gwerthuso wrth i’r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?**

41. Rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. I wneud hyn, rhaid iddynt lunio a chyhoeddi amcanion llesiant. Bydd yr amcanion hyn yn dangos sut bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni’r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y nodau llesiant. Yna mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd camau i sicrhau eu bod yn cyflawni'r amcanion a bennwyd. Mae llawer o’r cyrff cyhoeddus ychwanegol eisoes wedi dangos eu bod yn gallu gosod a chyhoeddi’r amcanion llesiant hyn, ac rydym yn disgwyl pontio didrafferth. Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus adrodd yn flynyddol ar y cynnydd y maent yn ei wneud tuag at eu hamcanion llesiant a fydd yn darparu gwybodaeth gyhoeddus ac yn cefnogi monitro parhaus gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol.


## ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

Ar ôl eu cwblhau, rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i fewnflwch CRIA@llyw.cymru

Mae Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a'i Brotocolau Dewisol wrth arfer unrhyw un neu ragor o'u swyddogaethau.

Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yw'r mecanwaith y cytunwyd y dylai swyddogion ei ddefnyddio i gefnogi Gweinidogion i gyflawni'r ddyletswydd hon a sicrhau eu bod yn rhoi ystyriaeth gytbwys i hawliau plant wrth wneud penderfyniadau. Dylid defnyddio Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant i lywio cyngor gweinidogol a rhaid ei gwblhau cyn gwneud penderfyniad gweinidogol. Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud, rhaid cyhoeddi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hefyd.

*Sylwch fod gennym Grŵp Cynghori ar Hawliau Plant, sy'n cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, UNICEF, Arsyllfa Cymru ar Hawliau Dynol Plant a Phobl Ifanc, a Plant yng Nghymru, y gellir ei ddefnyddio i drafod neu brofi eich Asesiad drafft o'r Effaith ar Hawliau Plant. Cysylltwch â'r Gangen Plant yn CRIA@llyw.cymrui gael rhagor o wybodaeth.*




I gael cyngor ac arweiniad pellach ar broses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant, dylech droi at *Y Llawlyfr Staff ar Hawliau Plant* neu gysylltu â'r Gangen Plant *CRIA@llyw.cymru*

1. **Amcanion y polisi**

- Effaith pa benderfyniad rydych chi'n ei asesu?

42. Y penderfyniad i ychwanegu cyrff cyhoeddus at adran 6 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

43. Y cyrff cyhoeddus i'w hychwanegu yw:

- Cymwysterau Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru
- Trafnidiaeth Cymru (enw cofrestredig: Transport for Wales)
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (enw cofrestredig: Centre for Digital Public Services Ltd)
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

44. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus i gyflawni datblygu cynaliadwy. Rhaid i gyrff cyhoeddus, wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy, bennu a chyhoeddi eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r amcanion llesiant gael eu cynllunio i sicrhau bod y corff cyhoeddus yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant.

45. Fel y nodir yn y canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol – Canllawiau Craidd) 'Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn bosibl i wneud gwell penderfyniadau drwy sicrhau bod y cyrff cyhoeddus hynny'n ystyried yr hirdymor, yn helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, yn gweithio mewn ffordd integredig a chydweithredol, ac yn ystyried ac yn cynnwys pobl o bob oedran. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiadau presennol fel y Gymraeg, cydraddoldebau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.'

46. O dan y dull 'cynnwys' o weithio, mae'r canllawiau statudol yn cyfeirio at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ac yn annog cyrff cyhoeddus yn gryf i gymhwyso'r safonau hyn wrth gyflawni eu rhwymedigaethau i 'ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl eraill sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth Cymru.' Cyfeirir yn benodol at blant a phobl ifanc fel mathau a grwpiau o bobl i'w cynnwys.

2. **Casglu tystiolaeth a gweithio gyda phlant a phobl ifanc**

- Pa ymchwil a data presennol ar blant a phobl ifanc sydd ar gael i lywio eich polisi penodol? Gall eich amcan polisi effeithio ar feysydd polisi eraill – bydd trafodaethau â thimau polisi eraill yn rhan bwysig o'r broses asesu effaith gan sicrhau eich bod chi wedi casglu amrywiaeth o wybodaeth a thystiolaeth.

47. Nid yw'r penderfyniad sy'n cael ei asesu yn newid y dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, na'r nodau llesiant na'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gan hynny, mae'r asesiad effaith gwreiddiol a ddatblygwyd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn ddilys. Mae'r penderfyniad yn ymwneud ag

ychwanegu mwy o gyrff cyhoeddus ac felly nid oes angen casglu data ar blant a phobl ifanc.

48. Fodd bynnag, mae adroddiadau fel Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017 ac Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 yn darparu man cychwyn cadarn i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau archwilio goblygiadau'r tueddiadau hyn, er mwyn i ni allu deall dyfodol Cymru yn well, wedi ei sbarduno gan undod â chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r adroddiadau hyn yn adnodd gwerthfawr er mwyn helpu'r cyrff cyhoeddus i gyfrannu at y nodau llesiant fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

49. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, drwy ei Adroddiadau Cenedlaethau'r Dyfodol statudol, yn tynnu sylw at enghreifftiau da o gynnwys plant a phobl ifanc a chanlyniadau polisi i fynd i'r afael â'r problemau mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

50. Yn 2020, gwnaeth adroddiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol argymhelliad, mewn cydweithrediad ag awdurdodau addysg lleol, bod Llywodraeth Cymru yn symud ei ffocws tuag at atal ar draws ysgolion yng Nghymru i leihau nifer y plant sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol, gan helpu i wella trywydd bywyd y plant sydd mewn mwy o berygl o wynebu anghydraddoldeb; a helpu i dorri cylchoedd gydol oes yn sgil anfantais, unigrwydd ac adfyd, fel rhan o genhadaeth genedlaethol gydlynol i ddarparu addysg sy'n addas ar gyfer y dyfodol.

- Gan ddefnyddio'r gwaith ymchwil hwn, sut ydych chi'n rhagweld y bydd eich polisi yn effeithio ar wahanol grwpiau[1] o blant a phobl ifanc, yn gadarnhaol ac yn negyddol? Cofiwch y gall polisïau sy'n canolbwyntio ar oedolion effeithio ar blant a phobl ifanc hefyd.

51. Nid yw'r penderfyniad sy'n cael ei asesu yn newid y dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus, na'r nodau llesiant na'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gan hynny, mae'r asesiad effaith gwreiddiol a ddatblygwyd ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn ddilys.

52. Yn 2022, fel rhan o gyhoeddi'r adroddiad llesiant blynyddol o dan adran 10(10) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad atodol a oedd yn rhoi detholiad o'r dadansoddiad a gynhwysir yn adroddiad Llesiant Cymru ynghylch llesiant plant. Prif bwyntiau'r adroddiad hwn oedd:

- Gwelwyd canlyniadau hirdymor cymysg o ran cychwyn iach mewn bywyd, gyda thuedd gymharol sefydlog o ran babanod pwysau geni isel, ond cynnydd

[1] Efallai y byddwch, er enghraifft, yn ystyried sut y byddai eich polisi yn cael effeithiau gwahanol ar y grwpiau canlynol o blant a phobl ifanc: y blynyddoedd cynnar, cynradd, uwchradd, oedolion ifanc; plant ag anghenion dysgu ychwanegol; plant anabl; plant sy'n byw mewn tlodi; plant Du, Asiaidd ac ethnig leiafrifol; Sipsiwn, Roma a Theithwyr; mudwyr; ceiswyr lloches; ffoaduriaid; siaradwyr Cymraeg; plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal; plant LHDTC+. Noder nad yw hon yn rhestr gyflawn ac na fydd pawb o fewn y carfanau hyn yn rhannu'r un profiadau.

yn y nifer sy’n bwydo ar y fron a gostyngiad yn nifer y menywod beichiog sy'n dweud eu bod yn smygu yn yr asesiad cychwynnol.

- Mae data newydd o asesiadau llinell sylfaen y Cyfnod Sylfaen yn dangos sut mae plant wedi datblygu cyn mynd i'r ysgol, gyda'r data diweddaraf yn adrodd ar y flwyddyn academaidd 2021 i 2022 yn dilyn blwyddyn gyntaf pandemig COVID-19.
- Yn 2021-22, roedd 66% o bobl ifanc 16-24 oed yn meddwl bod newid yn yr hinsawdd yn ganlyniad i weithgarwch dynol yn bennaf neu’n gyfan gwbl. Mae 97% yn meddwl bod gweithgarwch dynol yn gysylltiedig i ryw raddau â newid hinsawdd y byd.
- Mae llesiant personol yn dirywio gydag oed ac ymysg y rhai nad ydynt yn ystyried eu hunain yn fachgen nac yn fenyw.
- Nod y garreg filltir genedlaethol ar ymddygiad iach plant yw cynyddu canran y plant sydd â dau ymddygiad iach neu fwy i 94% erbyn 2035 ac i dros 99% erbyn 2050. Mae’r data’n dangos bod canran y plant sy’n cyrraedd y garreg filltir genedlaethol yn dal yn 88% (ym mlwyddyn academaidd 2019/20) ac mae wedi aros yn sefydlog ers dechrau casglu data yn ystod blwyddyn academaidd 2013/14.
- Mae'r rhan fwyaf o ymddygiadau ffordd o fyw iach yn dirywio yn ystod blynyddoedd plant yn yr ysgol uwchradd.
- Mae data o flwyddyn academaidd 2019/20 yn dangos bod defnyddio cyfryngau cymdeithasol mewn ffordd broblemus, ar gyfartaledd, yn cynyddu gydag oedran, a’i fod yn uwch ymysg merched na bechgyn.
- Mae’r astudiaethau ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn tynnu sylw at y berthynas rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chanlyniadau negyddol hirdymor.
- Yn adroddiad diweddaraf Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion sy'n cymharu canfyddiadau llesiant meddwl cyn ac yn ystod cyfnod y pandemig (2019 i 2021) gwelwyd bod gostyngiad yn llesiant meddyliol pobl ifanc 11 i 16 oed.

### Effeithiau cadarnhaol

53. Mae asesiad effaith gwreiddiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau'n ddilys gan nad yw bwriad y polisi wedi newid. Yn naturiol, plant a chenedlaethau’r dyfodol fydd yn gweld y rhan fwyaf o ganlyniadau’r newid hwn mewn ffocws.
54. Nid yw dyletswydd corff cyhoeddus i ystyried pwysigrwydd y *pum ffordd o weithio* yn pennu'r penderfyniad y mae'n rhaid iddo ei gyrraedd mewn unrhyw sefyllfa benodol: mae'n nodi ffactorau y mae'n rhaid iddynt eu hystyried yn gydwybodol cyn gwneud penderfyniad y mae'r ddyletswydd llesiant yn berthnasol iddo.

55. Bydd yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol – fel sy'n wir gyda'r rhai sydd eisoes yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant – bennu eu hamcanion llesiant er mwyn ceisio gwneud y mwyaf o'u cyfraniad at y nodau llesiant, sydd â chysylltiad cryf â themâu'r 42 o hawliau plant yn y Confensiwn. Trafodir y ffordd mae'r mecanwaith hwn yn ategu hawliau plant yn fwy manwl isod ac yn asesiad effaith gwreiddiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

56. Mae'r canllawiau statudol y bydd gofyn i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol eu hystyried yn tynnu sylw at sut y gall cyflawni'r ddyletswydd llesiant ategu CCUHP, ac yn annog cyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd llesiant i ystyried sut y gallant gefnogi plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau, a sut y gallant gymryd rhan wrth bennu eu hamcanion llesiant a sut mae'r agweddau hyn yn cysylltu â'r nodau llesiant

**Effeithiau Negyddol**

57. Mae risg o effaith negyddol bosibl ar blant o gefndiroedd difreintiedig os na roddir digon o bwys ar eu hanghenion gan gyrff cyhoeddus, gan arwain at benderfyniadau sydd ddim yn rhoi sylw digonol i'w hanghenion.

58. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn lliniaru'r rhain drwy'r darpariaethau a ganlyn:

- Mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol rôl allweddol, fel rhan o gefnogi sefydliadau, i wneud argymhellion ar sut gallant wella eu gwaith tuag at eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Bydd gofyn i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol a restrir yn y cynnig hwn ymateb i'r argymhellion hyn. Mae'r Comisiynydd yn cael ei gynorthwyo gan banel cynghori sydd, yn ôl y gyfraith, yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru, fel y gall materion sy'n effeithio ar blant o gefndiroedd gwahanol gael eu cynrychioli'n briodol yng nghyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i sefydliadau.
- Mae'n ofynnol i'r cyrff cyhoeddus penodol yn y cynnig hwn – fel y cyrff cyhoeddus presennol – osod, bodloni a mesur cynnydd tuag at amcanion llesiant sy'n cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol. Mae'r adrodd rheolaidd hwn mewn perthynas â nodau integredig o'r fath ar lefel leol, a'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol statudol, yn gwella tryloywder ac yn ei gwneud yn haws monitro anfanteision i blant.
- Mae'r canllawiau statudol yn cynghori cyrff cyhoeddus ar sut i gynnwys plant a phobl ifanc drwy gyfeirio at y Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r safonau'n sail i dair colofn CCUHP – Diogelu, Darpariaeth a Chyfranogi.

59. Pan fydd cyrff cyhoeddus yn gosod amcanion llesiant, bydd y rhain yn ystyried anghenion plant a phobl ifanc. Bydd ehangu llesiant i'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn ehangu cwmpas yr effeithiau cadarnhaol i blant a phobl ifanc.

60. Un enghraifft o gorff cyhoeddus ychwanegol sy'n defnyddio'r *pum ffordd o weithio* a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw Trafnidiaeth Cymru wrth greu ei Strategaeth Drafnidiaeth ar gyfer 2021 o dan ei Strategaeth Gorfforaethol

ar gyfer 2021-26. Un agwedd ar y strategaeth hon yw ‘Cysylltu ein Cymunedau Gwledig’

61. Yn ogystal â nodau llesiant *Cymru o Gymunedau Cydlynus* a *Chymru sy’n Fwy Cyfartal*, mae amcanion llesiant Trafnidiaeth Cymru hefyd yn cyfrannu at *Cymru Iachach* a *Chymru sy’n Gyfrifol yn Fyd-eang*. Yn ei dro, bydd hyn yn helpu i fynd i’r afael â materion sy’n cyfrannu at dlodi mewn ardaloedd gwledig. Bydd ychwanegu Trafnidiaeth Cymru a’r cyrff cyhoeddus ychwanegol eraill at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynyddu eu cyfraniad at y nodau llesiant i’r eithaf.

- Pa waith cyfranogol gyda phlant a phobl ifanc ydych chi wedi’i ddefnyddio fel sail i'ch polisi? Os nad ydych wedi ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, esboniwch pam.[2]

62. Gan nad yw’r polisi’n newid, nid oedd angen ymgynghori’n benodol â phlant a phobl ifanc. Bydd hyn yn rhywbeth y bydd rhai o’r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn dymuno ei wneud wrth bennu eu hamcanion llesiant. Nid oedd materion penodol i blant neu bobl ifanc yn codi mewn unrhyw ymgysylltu nac yn unrhyw un o’r ymatebion i’r ymgynghoriad ar y cynnig hwn.

63. Yn dibynnu ar yr amcanion llesiant a bennwyd gan gyrff cyhoeddus, a'r camau y maent yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hyn, mae cynnwys *Cymru Iachach* yn llywio camau gweithredu cyrff cyhoeddus mewn ffordd a all fod o fudd i blant a phobl ifanc.

64. Mae enghraifft o'r sector Iechyd yn ymwneud â phlant a phobl ifanc i'w gweld yn adroddiad ACC 2020, sy'n manylu ar y canfyddiadau o'i archwiliadau datblygu cynaliadwy. Yn yr adroddiad hwn, tynnodd sylw at enghraifft o ddefnydd effeithiol o’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn lansio 'Connect', sef gwasanaeth rheoli pwysau i blant a phobl ifanc. Roedd yn cynnwys tîm newydd o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar draws Gwent sy'n cydweithio i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, i wella eu hiechyd corfforol ac emosiynol ac i drin cymhlethdodau gordewdra. Fe'i datblygwyd fel partneriaeth rhwng gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol.

65. Cafodd y gwasanaeth ei gynllunio gyda ffocws ataliol hirdymor. Gweithiodd staff ar y cyd i nodi cost gordewdra, yn ogystal ag i amcangyfrif y galw am y gwasanaeth arbenigol, capasiti'r gwasanaeth a'r adnoddau gofynnol ar gyfer cyllid a'r gweithlu yn awr ac yn y dyfodol. Fe wnaethant werthuso'r adnoddau a ddefnyddiwyd i ddarparu gofal i blant a phobl ifanc sydd â gordewdra i nodi faint y gellid ei ailfuddsoddi yn y gwasanaeth newydd.

66. Gweithiodd y Bwrdd Iechyd gydag ystod o bartneriaid i fapio gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer mynd i'r afael â gordewdra, er enghraifft mewn perthynas â gweithgarwch corfforol a mynediad at ddewisiadau bwyd iach a fforddiadwy. Mae 'Connect' yn helpu i lunio dull system gyfan o fynd i'r afael â gordewdra ymhlith plant. Er enghraifft, mae 'Connect' yn cysylltu â thimau Ymwelwyr Iechyd sy'n

[2] Dywed Erthygl 12 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn fod gan blant yr hawl i fynegi eu barn, yn enwedig pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.

gweithredu Rhaglen Plant Iach Cymru a'r Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion, sy'n ymgymryd â'r rhaglen mesur plant.

67. Datblygwyd fframwaith canlyniadau ochr yn ochr â'r gwaith o ddarparu a gwella gwasanaethau, i fonitro canlyniadau clinigol, ac i ddeall ei effaith a phrofiad plant a'u teuluoedd. Mae'r mesurau'n cynnwys mesurau canlyniadau a ddatblygwyd yn arbennig ar gyfer y claf (plentyn), mesurau profiad y claf (plentyn) a mesurau ansawdd bywyd.

68. Roedd datblygu gwasanaeth newydd (y cyntaf yng Nghymru) yn gofyn am ymddiriedaeth, cymryd risg a chefnogaeth gan uwch arweinwyr yn y sefydliad i ymrwymo adnoddau lle nad yw canlyniadau yn amlwg yn y tymor byr.

*I gael cyngor ar waith cyfranogi â phlant a phobl ifanc, cysylltwch â'r Gangen Plant. Mae gennym berthynas ers tro â Plant yng Nghymru, a allai eich helpu i weithio gyda phlant a phobl ifanc drwy eu rhaglen Cymru Ifanc.*

**3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith**

- Gan ddefnyddio'r dystiolaeth rydych wedi'i chasglu, pa effaith mae'ch polisi'n debygol o'i chael ar blant a phobl ifanc? Pa gamau fyddwch chi'n eu cymryd i liniaru a/neu leihau unrhyw effeithiau negyddol?

69. Mae asesiad effaith gwreiddiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dal yn ddilys gan nad yw'r polisi wedi newid.

70. Fodd bynnag, mae ychwanegu mwy o gyrff cyhoeddus at fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ehangu cwmpas unrhyw effaith bosibl. Mae'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn gweithredu'n genedlaethol ac yn debygol o ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc.

71. Nodir yr hyn a wneir i liniaru effeithiau negyddol ym mharagraff 58.

Sut mae'ch cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y nodir yn erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i Brotocolau Dewisol? Edrychwch ar yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi chi.

| Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Heriau (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhaid i'r holl hawliau a warentir gan CCUHP fod ar gael i bob plentyn heb wahaniaethu o unrhyw fath (Erthygl 2)<br><br>Rhaid i fuddiannau gorau'r plentyn fod yn brif ystyriaeth ym mhob gweithred sy'n ymwneud â phlant (Erthygl 3)<br><br>Bod gan bob plentyn yr hawl i fywyd, i oroesi ac i ddatblygu (Erthygl 6)<br><br>Bod rhaid ystyried barn y plentyn a'i hystyried ym mhob mater sy'n effeithio arno ef neu hi (Erthygl 12) | | | Gallai'r cynnig i ymestyn y ddyletswydd llesiant i gyrff cyhoeddus ychwanegol gael effaith gadarnhaol ar lawer o'r erthyglau yn CCUHP. Mae hyn yn cynnwys pedair erthygl sy'n cael pwyslais arbennig yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig a elwir yn 'egwyddorion cyffredinol'. Yr hawliau hyn yw'r sylfaen ar gyfer sicrhau'r hawliau ychwanegol yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig. |
| *Cymru Lewyrchus*<br><br>Erthyglau 4, 5, 6, 18, 26, 27, 28, 29, 42. | **X** | | |
| *Cymru Gydnerth*<br><br>Erthyglau 4, 13, 15, 17, 24, 26, 27. | **X** | | Mae *Y Ffordd Gywir*, adroddiad a luniwyd ar y cyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, yn rhoi enghraifft o sut gellir mapio pob un o'r erthyglau yn CCUHP ar draws pob un o'r nodau llesiant. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi cyngor a chymorth i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gyfrannu at y nodau llesiant. Disgwylir i gyrff cyhoeddus ddangos eu cyfraniadau at y nodau llesiant yn eu hadroddiadau llesiant. |
| *Cymru Iachach*<br><br>Erthyglau 3, 6, 24, 31, 33, 39 | **X** | | |
| *Cymru sy'n Fwy Cyfartal*<br><br>Erthyglau 1, 2, 7, 8, 12, 20, 21, 22, 23, 25, 26, 27, 30. | **X** | | |
| *Cymru o Gymunedau Cydlynus*<br><br>Erthyglau 9, 10, 11, 12, 13, 14, 15, 16, 19, 22, 25, 32, 33, 34, 35, 36, 37, 38, 39, 40.<br><br>**Erthyglau 1 i 10 ar Brotocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar Werthu Plant, Puteindra Plant a Phornograffi Plant*<br><br>**Erthyglau 1 i 7 ar Brotocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar Gynnwys Plant mewn Gwrthdaro Arfog, ac eithrio Erthygl 6(2)* | **X** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*<br><br>Erthyglau 29, 30, 31.<br><br>*Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang*<br><br>Erthyglau 1, 2, 3, 4, 6, 12, 41, 42. | **X**<br><br><br><br>**X** | | |

- Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.

72. Ni ddisgwylir i'r cynnig hwn gael unrhyw effaith benodol ar y grwpiau hyn.

---

*I gael rhagor o wybodaeth am [Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn](#) a'i Brotocolau Dewisol, ewch i'r [Dudalen Fewnrwyd ar Hawliau Plant](#).*

---

**4. Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad**

- Sut bydd eich dadansoddiad o'r effeithiau hyn yn cyfrannu at eich cyngor i Weinidogion?
    - *Ar ôl ei gwblhau, rhaid i'ch Dirprwy Gyfarwyddwr lofnodi eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.*
    - *Dylai canfyddiadau eich Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant gael eu cynnwys yn eich cyngor gweinidogol i lywio eu penderfyniad.*

73. Bydd cyngor Gweinidogol yn egluro bod tirwedd y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi newid ers pasio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac yn egluro sut bydd ychwanegu'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn helpu i adlewyrchu cwmpas ac ehangder yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn well. Bydd cynnwys y cyrff cyhoeddus yn ffurfiol yn yr agenda yn cryfhau'r ffordd mae'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'i gilydd.

74. Roedd yr [ymatebion](#) i'r ymgynghoriad ar y cynnig hwn a gynhaliwyd yn 2022 yn pwysleisio bod ychwanegu'r cyrff cyhoeddus hyn yn cael ei weld yn gyffredinol fel cam amserol sydd i'w groesawu a fyddai'n cryfhau'r bensaernïaeth datblygu cynaliadwy yng Nghymru ac o fudd i bawb yng Nghymru, gan gynnwys plant.

75. Roedd yr ymatebion gan gyrff cyhoeddus sydd ar hyn o bryd yn ddarostyngedig i ddyletswydd llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn amlinellu manteision gweithio'n well mewn partneriaeth, sy'n darparu cyfleoedd i wneud cyfraniad ar y cyd at ddatblygu cynaliadwy. Bydd cynnwys y cyrff cyhoeddus

ychwanegol hyn yn cryfhau'r defnydd o'r ffyrdd cynaliadwy o weithio sy'n ganolog i sut mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn gweithio.

76. Mae'r asesiad effaith integredig yn adeiladu ar yr asesiad effaith blaenorol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Roedd yr asesiad yn ystyried rôl a swyddogaeth y cyrff cyhoeddus ychwanegol o ran yr effeithiau cadarnhaol y byddant yn eu cael fel rhan o'u cyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol a'u rhan yn yr agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol hyd yma. Mae unrhyw dystiolaeth, llenyddiaeth ac adroddiadau perthnasol wedi cael eu hystyried ers i'r ddyletswydd llesiant ddod i rym wrth i gyrff cyhoeddus gael mynediad at yr wybodaeth hon sydd ar gael i'r cyhoedd i'w helpu i'w llywio wrth bennu amcanion llesiant.

### 5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

- *Yn dilyn penderfyniad gweinidogol, dylid cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar wefan Llywodraeth Cymru.*
- *Anfonwch adrannau 1 ac 8 o'ch Asesiad Effaith Integredig a'ch Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (Atodiad A) at eich rheolwr gwefan adrannol i'w cyhoeddi.*
- *Hefyd rhaid anfon **pob** Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant sydd wedi eu cwblhau i flwch post CRIA@llyw.cymru.*

---

*I gael rhagor o wybodaeth a chymorth o ran y broses hon, ewch i'r Dudalen ar y Fewnrwyd ar Hawliau Plant sy'n cynnwys amrywiaeth o adnoddau.*

---

### 6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc

- Os ydych chi wedi gofyn am farn plant a phobl ifanc ynghylch eich cynnig, sut byddwch chi'n rhoi gwybod iddynt am y canlyniad?

77. Gan nad yw'r polisi'n newid, nid oedd angen ymgynghori'n benodol â phlant a phobl ifanc. Fodd bynnag, bydd hyn yn rhywbeth y bydd rhai o'r cyrff cyhoeddus ychwanegol yn cael eu hannog i'w wneud yn y canllawiau statudol wrth ystyried pwysigrwydd cynnwys pobl wrth bennu eu hamcanion llesiant.

---

*Os yw eich polisi'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cofiwch gynhyrchu fersiynau sy'n addas i blant o unrhyw ddogfen gyhoeddus sy'n ymwneud â'ch cynnig. Cysylltwch â'r Gangen Plant i gael rhagor o gyngor.*

---

### 7. Monitro ac Adolygu

78. Bydd gweithredu ac effaith y cyrff cyhoeddus ychwanegol wrth gyflawni datblygu

cynaliadwy yn cael ei fonitro drwy:

- Cyrff cyhoeddus
    - Adroddiadau blynyddol – mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus adrodd ar y cynnydd mae wedi ei wneud o ran cyflawni ei amcanion llesiant ar gyfer y flwyddyn flaenorol.
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
    - Monitro – o dan adran 18 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ddyletswydd gyffredinol, ymysg pethau eraill, i fonitro ac asesu i ba raddau mae amcanion llesiant a bennir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.
    - Adroddiadau Blynyddol – gall Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gynnwys asesiad y Comisiynydd o'r gwelliannau y dylai cyrff cyhoeddus eu gwneud i gyflawni eu hamcanion llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.
    - Adolygiadau - o dan adran 20 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gall Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gynnal adolygiad o'r graddau mae corff cyhoeddus yn diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion drwy ystyried effaith hirdymor y pethau mae'r corff hwnnw'n ei wneud. Rhaid i gorff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn y camau a nodir mewn argymhelliad a wneir iddo gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o dan yr adran hon.
- Archwilydd Cyffredinol Cymru
    - Archwiliad – o dan adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae ACC yn cynnal archwiliadau rheolaidd o osod amcanion llesiant a'r camau mae cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny.
- Llywodraeth Cymru
    - Adroddiad Blynyddol Llesiant Cymru – yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cenedlaethol o ran cyflawni'r saith nod llesiant drwy'r 50 dangosydd cenedlaethol ac 17 carreg filltir genedlaethol.